CGGC yn dathlu'r cyfraniad y mae cyllid yr UE wedi'i wneud i'r sector gwirfoddol yng Nghymru wrth i'r cyllid ddod i ben

Ar 9 Mawrth 2023, cynhaliodd CGGC ddigwyddiad yng Nghaerdydd i ddathlu'r pethau sydd wedi'u cyflawni gan y sector gwirfoddol diolch i gyllid y DU. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r sector gwirfoddol wedi chwarae rhan allweddol mewn cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau a gyllidwyd gan yr UE, gyda'r nod o gefnogi'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus yng Nghymru, ynghyd â helpu busnesau cymdeithasol i dyfu a dod yn fwy cynaliadwy.

Nawr, wrth i ni agosáu at ddiwedd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, daeth nifer o'r rheini sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglenni hyn ynghyd i ddangos ychydig o'r gwaith ffantastig y mae mudiadau gwirfoddol wedi'i wneud gyda chymorth y cronfeydd hyn.

Yn yr anerchiad agoriadol gan Vaughan Gething AS, dywedodd Gweinidog yr Economi:

'Mae'n bleser dathlu dau ddegawd o CGGC a'r sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau amhrisiadwy i'n cymunedau gyda help Cyllid Ewropeaidd. Fel Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n cydnabod cyfraniad enfawr y sector gwirfoddol i'r rhwydwaith cyflogadwyedd, a llwyddiant prosiectau sy'n seiliedig ar gyllid Ewropeaidd. Mae'r prosiectau hyn wedi arwain at fuddsoddiad i dyfu a chreu swyddi ac maen nhw hefyd wedi cael effaith bositif ar lesiant cymunedau ar hyd a lled Cymru drwy ddarparu gwasanaethau cymunedol tyngedfennol, helpu i drechu tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

'Wrth edrych i'r dyfodol, 'does dim dwywaith bod angen buddsoddiad rhanbarthol hirdymor, parhaus i fynd i'r afael â'r anghydbwyseddau mawr a chyson yn economi'r DU. Rydyn ni'n parhau i bledio'r achos hwnnw a byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r sector wrth symud ymlaen.'

Gan siarad am yr hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw gyda chyllid Ewropeaidd, dywedodd Cynllun Addysg Beirianneg Cymru Cyf /STEMCymru:

‘Rydyn ni wrth ein boddau i gael gwahoddiad i ddod i ddigwyddiad Cyllid yr UE CGGC i ddathlu’r gwaith sydd wedi’i gyflawni gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop o dan y flaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid. Mae’r cyllid rydyn ni wedi’i gael wedi ein galluogi i gyflwyno ein rhaglenni i fwy na 14,000 o bobl ifanc yn ardaloedd Gorllewin Cymru a’r Cymoedd ers 2015.

‘Rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio ar gynyddu cyrhaeddiad a chynyddu’r nifer sy’n dilyn pynciau STEM [Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg], yn ogystal â gwella’r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn y sector STEM yng Nghymru. Mae effaith ein canlyniadau gweithgarwch yn cyfrannu hefyd at y prinder sgiliau mewn pynciau STEM er mwyn sicrhau y gall gweithlu’r dyfodol yng Nghymru fodloni’r amcanion sero net uchelgeisiol.’

Wrth siarad am gyllid yr UE a’r sector gwirfoddol, dywedodd Ruth Marks, Prif Swyddog Gweithredol CGGC:

‘Mae Cymru wedi cael budd aruthrol o gyllid yr UE ac mae’r sector wedi gweithio mewn partneriaeth lwyddiannus gyda chyrff yr UE i gyflawni buddsoddiad sylweddol mewn cymunedau. Cyn nawr, roedd cynllunio ar gyfer diwedd cyfnod unrhyw raglen yn ymwneud â chynllunio partneriaethau UE ar gyfer y dyfodol, ond yn anffodus, nid yw hyn yn bosibl mwyach. Mae angen i’r sector edrych tua’r dyfodol nawr drwy feithrin partneriaethau gwahanol, a bydd hyn yn cymryd amser.

‘Yn y cyfamser, mae colli’r cyllid Ewropeaidd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl, ac rydyn ni’n poeni ynghylch sut bydd hyn yn effeithio ar y cymunedau a’r unigolion hynny yng Nghymru sydd angen yr help mwyaf. Bydd CGGC yn parhau i ymgyrchu i gyllid amgen gyrraedd y sector mor gyflym â phosibl’.

Am ragor o wybodaeth a chyfweliadau, cysylltwch ag Elen Notley 029 2043 1728 neu Simon Dowling ar 0300 111 0124.

NODIADAU I'R GOLYGYDDION

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydyn ni'n bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Mae rhagor o wybodaeth yn: www.wcva.cymru
- Gellir gweld fideos enghreifftiol o brosiectau a gyllidwyd yma ar YouTube: https://www.youtube.com/playlist?list=PLzxRC-u44YC2EdGoyhQDsyuASJbOHQDik
- Mae lluniau o'r digwyddiad ar gael

Er mwyn i ni hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddaru ein cysylltiadau yn y wasg ynghylch newyddion perthnasol gan CGGC, caiff eich gwybodaeth ei chofnodi ar ein cronfa ddata. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar wefan CGGC, i gael gwybod sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy fydd yn gallu ei gweld, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa: Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF (Swyddfeydd hefyd yn y Rhyl ac Aberystwyth)
Ffôn: 0300 111 0124
E-bost: help@wcva.cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Elusen Gofrestredig 218093
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

WCVA CGGC